# Is-Adran Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru

## Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**TRWYDDED I GYMRYD COCOS o'r Ardal a ddiffinnir isod dros y cyfnod 1 Medi 2025 – 31 Mai 2026.**

Mae'r **DRWYDDED HON** yn caniatáu i Ddeiliad y Drwydded

bysgota am gocos a chymryd cocos o'r ardal a ddiffinnir yn yr Atodlen i'r drwydded hon ("yr Ardal") yn amodol ar yr Amodau isod.

**Bydd a terfyn dal dyddiol o 350kgs nes bydd rhybudd pellach.**

**AMODAU:**

1. Dim ond Deiliad y Drwydded gaiff bysgota am gocos a chymryd cocos yn yr Ardal. Ni chaniateir i Ddeiliad y Drwydded gael ei gynorthwyo gan unrhyw berson arall ac ni chaniateir trosglwyddo'r Drwydded hon i unrhyw berson arall.
2. Caniateir i Ddeiliad y Drwydded bysgota am gocos a chymryd cocos o unrhyw bysgodfa yn yr Ardal cyn belled nad yw'r bysgodfa honno wedi'i chau yn unol â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.
3. Mae'r Drwydded hon yn ddilys o 00:01 ar 1 Medi 2025 tan 23:59 ar 31 o Fai 2026. Daw'r Drwydded hon i ben yn awtomatig, os na chaiff ei therfynu neu ei thynnu'n ôl cyn y dyddiad hwnnw.
4. Rhaid i ddeiliad y drwydded fod â thrwydded ddilys a bod yn barod i gael ei holi gan Swyddog Llywodraeth Cymru neu unrhyw Swyddog Gorfodi Morol ar alw am ei fanylion personol er mwyn cadarnhau pwy ydyw a bod ganddo drwydded ddilys gan Lywodraeth Cymru.
5. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gydymffurfio â'r holl alwadau a chyfarwyddiadau rhesymol a roddir gan unrhyw un o Swyddogion Llywodraeth Cymru neu unrhyw Swyddog Gorfodi Morol.
6. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded anfon adroddiad llawn a chywir ("manylion y ddalfa") am y cocos a gymerwyd o'r Ardal gan ddefnyddio'r porthol cofnodi dalfeydd ar-lein Cais am drwydded bysgota | LLYW.CYMRU **BOB DYDD.** Rhaid i gofnod y ddalfa nodi dyddiad, lleoliad a chyfanswm pwysau byw (mewn cilogramau) y cocos a gymerwyd o'r Ardal. Os na chymerwyd cocos, rhaid nodi ar gofnod y ddalfa na chafodd unrhyw gocos eu cymryd.
7. Ni ddylai unrhyw un bysgota am gocos, eu cymryd na'u symud ymaith rhwng hanner awr ar ôl machlud haul ar unrhyw ddiwrnod a hanner awr cyn i'r haul godi'r diwrnod wedyn.
8. Rhaid casglu â llaw neu â rhaca a rhidyll â rhwyll, ni ddylai cocos basio trwodd mesurydd sydd ag agoriad sgwâr o 20mm wedi fesur ar draws pob ochr i'r sgwâr, (yn unol â

Is-adran Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500, e-bost:
MilfordHavenFisheriesOffice@llyw.cymru

BUDDSODDWR MEWN POBL L
INVESTOR IN PEOPLE

Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgodfeydd Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024". Gwaherddir defnyddio bagiau rhwyd. Rhaid rhoi cocos sy'n rhy fach yn ôl yn y gwely ar unwaith mewn man mor agos â phosibl i'r lle y cymerwyd y cocos hynny ohono.

9. **Dyled sachau cocos i fyny at 25kgs (tua 45cm x 60cm) cael eu defnyddio i dynnu cocos o'r gwelyau cocos. Rhaid defnyddio'r sachau hyn i gludo'r cocos a gasglwyd i'r man glanio ar berimedr yr ardal benodedig.**

10. **Mae angen gosod tagiau adnabod ar gyfer pob sach yn ddiogel ar y sachau cocos a rhaid i'r tagiau ddangos rhif trwydded deiliad y drwydded yn glir.**

11. Ni ddylid defnyddio bagiau tunnell i gludo cocos o'r gwelyau cocos i'r lan.

12. Gwaherddir defnyddio tampiau, neu unrhyw offeryn arall i droi'r tywod yn hylif.

## <u>Traeth Lafan</u> –

13. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded fynd i'r bysgodfa a glanio a chymryd y cocos o'r bysgodfa trwy faes parcio Aber Ogwen gyferbyn â **Phwynt A** yn yr ardal a ddiffinnir yn yr Atodlen.
14. Yn ogystal, **rhaid** i Ddeiliad y Drwydded sicrhau mai dim ond ar hyd y llwybr mynediad a ddangosir ar y map sy'n dwyn yr enw "Map Mynediad Traeth Lafan" yn **Atodiad 3** y mae'n mynd i'r bysgodfa.
15. **Rhaid** i Ddeiliad y Drwydded beidio â mynd i'r ddwy ardal a nodir â'r geiriau "Cadwch Allan" ar y map sy'n dwyn y teitl "Map Mynediad Traeth Lafan" yn **Atodiad 3**.
16. **Caniateir casglu cocos ar ddyddiau Llun, Iau a Gwener yn UNIG, yn cychwyn dydd 1 Medi 2025.**

## <u>Traeth Melynog</u> –

17. Rhaid i ddeiliad y drwydded fynd i'r bysgodfa a glanio a chymryd y cocos o'r bysgodfa ym **Mhwynt C** yn yr Atodlen i'r Drwydded hon.
18. Yn ychwanegol, **rhaid** i Ddeiliad y Drwydded sicrhau mai'r unig ffordd y mae'n mynd i'r bysgodfa yw ar hyd y llwybr sydd wedi'i farcio fel "Mynediad" ar "Fap Mynediad Traeth Melynog" yn **Atodiad 4.**
19. **Rhaid** i Ddeiliad y Drwydded **beidio** ag achosi, gadael na chaniatáu i unrhyw weithgaredd casglu cocos gael ei gynnal mewn ffordd a allai effeithio ar unrhyw Wellt-y-gamlas bach (Zostera noltei). Mae map yn dangos lleoliadau hysbys Gwellt-y-gamlas bach (Zostera noltei) ynghlwm yn **Atodiad 5**. Mae'r map hwn yn diffinio nifer o ardaloedd lle **gwaherddir** casglu cocos.
20. **Caniateir casglu cocos ar ddyddiau Mawrth a Mercher yn UNIG, yn cychwyn ar ddydd 11 Tachwedd 2025.**

## <u>Traeth Coch</u> – **Yn aros ar gau.**

21. **Terfynu:** Caiff Gweinidogion Cymru fel y gwelant yn dda dynnu'r Drwydded hon yn ôl ar unrhyw adeg. Lle medrir, rhoddir rhybudd ymlaen llaw o'r bwriad i dynnu'r drwydded yn ôl, ond o dan unrhyw un neu rai o'r amgylchiadau a ganlyn, caniateir tynnu'r Drwydded yn ôl ar unwaith (h.y. heb roi rhybudd ymlaen llaw):
    a. mewn argyfwng.

Is-adran Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500, e-bost:
MilfordHavenFisheriesOffice@llyw.cymru

b. os yw Deiliad y Drwydded yn torri unrhyw un o amodau'r Drwydded hon;
c. os yw’r gweithgareddau a awdurdodir gan y Drwydded hon yn arwain neu'n debygol o arwain at effaith sylweddol ar unrhyw Safle Morol Ewropeaidd (fel y'i diffinnir gan Reoliad 8(4) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (O.S. 2010/490).

22. Mae torri unrhyw un o amodau'r Drwydded hon yn drosedd a chaiff y Drwydded hon ei therfynu ar unwaith.

**Mae unrhyw berson sy’n gweithredu'n groes i delerau ac amodau'r Drwydded hon yn euog o drosedd o dan adran 190 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009. Mae person a geir yn euog o drosedd o dan yr adran honno yn agored o’i gollfarnu’n ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na £50,000. Yn ogystal, caniateir i'r llys orchymyn fforffedu unrhyw offer pysgota a ddefnyddiwyd wrth gyflawni'r drosedd ac unrhyw rai o adnoddau'r pysgodfeydd môr y cyflawnir y drosedd mewn cysylltiad â hwy neu swm o arian sy'n cynrychioli gwerth yr offer pysgota neu'r adnoddau hynny. Caniateir i'r Llys hefyd atal y Drwydded dros dro neu anghymhwyso'r unigolyn rhag dal y cyfryw Drwydded am y cyfryw gyfnod ag y gwêl y Llys yn dda.**



Mark Alexander

Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Pysgodfeydd

Llywodraeth Cymru

Dyddiad:  28 Hydref 2025

**Rhoddir y Drwydded hon o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru, yn unol â** Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.

Is-adran Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500, e-bost:
MilfordHavenFisheriesOffice@llyw.cymru

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Pwysig:**

1. Rhoddir y Drwydded hon yn unol â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 ac mae'n ymwneud â'r Offeryn Statudol hwnnw yn unig.
2. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol arall (gan gynnwys deddfwriaeth pysgodfeydd a'r amgylchedd) a chael unrhyw ganiatâd a/neu awdurdodiad arall sydd ei angen cyn pysgota am gocos a chymryd cocos yn yr Ardal a ddiffinnir yn yr Atodlen i'r Drwydded hon.
3. Nid yw'r Drwydded yn awdurdodi defnyddio cerbydau ar dir sy'n ffinio â'r Ardal nac yn caniatáu mynediad i'r tir hwnnw mewn ffordd arall. Nid yw'r awdurdodiad hwn yn eich amddiffyn rhag cael eich erlyn o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall. Nid oes iddo unrhyw effaith mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth neu ofyniad cyfreithiol arall ac ni fydd yn eich amddiffyn rhag darpariaethau a gofynion o'r fath, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Traffig Ffyrdd 1988 neu unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymdrin â defnyddio cerbyd.
4. Yn ychwanegol at ddarpariaethau statudol eraill, mae'n bosibl y byddwch yn cyflawni trosedd os byddwch yn defnyddio cerbyd yn yr Ardal a'r ardaloedd cyffiniol heb ichi yn gyntaf gael caniatâd ymlaen llaw oddi wrth yr holl berchenogion tir perthnasol (ac unrhyw gyrff perthnasol eraill) sy'n berchen ar y tir yr ydych yn bwriadu teithio drosto. Os nad yw pob perchennog tir perthnasol wedi cynnal yr holl asesiadau sy'n ofynnol o dan unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol ar warchod natur neu ar yr amgylchedd (er enghraifft, o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC), cyn rhoi caniatâd ichi ddefnyddio'ch cerbyd yn yr ardal benodedig, dylech nodi ei bod yn bosibl y byddwch yn dal i gyflawni trosedd hyd yn oed os byddwch wedi cael caniatâd perchennog y tir.
    - Dylai deiliaid trwydded fod yn ymwybodol ei bod yn ofyniad statudol i Ddogfen Gofrestru (y dogfennau symud gynt) gyd-deithio gyda phob swp o gocos wrth iddo gael ei symud o'r ardal gynhyrchu, h.y. y gwely pysgod cregyn, neu pan gaiff ei roi ar y farchnad gyntaf. Yn unol â Rheoliad (CE) rhif 853/2004, rhaid llenwi'r Dogfennau Cofrestru a chynnwys manylion y casglwr, y gwely y casglwyd y pysgod cregyn ohono a'r dyddiad, cyn cludo'r cocos. Cewch gopïau o'r dogfennau hyn gan naill ai Cyngor Sir Ynys Môn (Traeth Melynog) neu Gyngor Sir Gwynedd (Traeth Lafan) gan ddefnyddio'r manylion cysylltu isod:
    - Traeth Lafan - Dylai deiliaid trwydded gysylltu â'r Tîm Diogelwch Bwyd, Cyngor Gwynedd drwy ffonio (01766) 771000 neu e-bostio bwyd@gwynedd.llyw.cymru
    - Traeth Melynog - Dylai deiliaid trwydded gysylltu â: Timau Diogelwch Bwyd, Cyngor Ynys Môn drwy ffonio 01248 752820 neu e-bostio ehealth@anglesey.gov.uk
5. Hysbysir deiliaid trwyddedau bod yn rhaid cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn i ddefnyddio cerbydau ar Draeth Melynog gan gynnwys Cerbydau Pob Tirwedd / Cerbydau Amlbwrpas / beiciau cwad, hynny'n unol â'u his-ddeddfau. Dylai casglwyr sydd angen cyngor pellach gysylltu:

    **Cyfoeth Naturiol Cymru:**

    Ebost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

    Ffôn: 0300 065 3000

    **Cyngor Sir Ynys Môn:**

    contactmon@anglesey.gov.wales

Er gwybodaeth, gellir cael copi o is-ddeddfau Cyngor Sir Ynys Môn gan: http://www.anglesey.gov.uk/

6. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar Warged y gellir ei Gynaeafu (“HS”) o **424 o dunelli** o Gocos ar Draeth Lafan, a **265 o dunelli** ar Draeth Melynog ar gyfer tymor 2025/2026.
7. Pan fydd y terfyn hwn wedi’i gasglu, bydd Llywodraeth Cymru’n cau’r ardal berthnasol yn unol â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.
8. Yn yr un modd, os yw’r gweithgareddau a awdurdodir gan y Drwydded hon yn arwain neu'n debygol o arwain at effaith sylweddol ar unrhyw Safle Morol Ewropeaidd (fel y'i diffinnir gan Reoliad 8(4) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (O.S. 2010/490), bydd Llywodraeth Cymru'n cau'r bysgodfa.
9. Staff Gorfodi Llywodraeth Cymru fydd yn rhoi gwybod am hynny yn y lle cyntaf, a bydd hysbysiadau yn cael eu harddangos yn yr ardal honno. Anfonir llythyr hefyd at bob deiliad trwydded yn cadarnhau’r ardal sydd wedi’i chau a bydd yr hysbysiad cau perthnasol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn: Pysgota am cocos: canllawiau | LLYW.CYMRU
10. Mae’r ardal groeslinellog a welir ar y cynllun yn **Atodiad 2** yn dangos, at ddibenion gwybodaeth yn unig, yr ardal yn Nhraeth Melynog sydd wedi’i dosbarthu fel ardal gynhyrchu molysgiaid dwygragennog at ddibenion Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd 854/2004.

Is-adran Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500, e-bost:
MilfordHavenFisheriesOffice@llyw.cymru

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

# Atodlen

Yn yr Atodlen hon mae grŵp o chwech neu wyth rhif sy'n nodi neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw bwynt yn cynrychioli cyfesurynnau map y pwynt hwnnw ar grid y system gyfeirnodau genedlaethol a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans ar ei fapiau a'i gynlluniau.

Mae'r holl gyfesurynnau lledred a hydred wedi'u rhoi mewn graddau, munudau a ffracsiynau degol o funud ac maent yn gyfesurynnau System Geodetig y Byd 1984.

| Yr Ardal |
| --- |
| **TRAETH LAFAN (Dwyrain Afon Menai)**<br>Diffiniwyd fel a ganlyn:<br>Llinell syth o leoliad:<br>A). SH 6157 7241; 53°13.84'N, 04°04.53'W<br>Oddi yno mewn llinell syth i leoliad:<br>B). SH 6092 7486; 53°15.15'N, 04°05.17'W<br>Oddi yno mewn llinell syth i leoliad:<br>C). SH 6732 7654; 53°16.15'N, 03°59.46'W<br>Oddi yno mewn llinell syth i leoliad:<br>D). SH 6801 7548; 53°15.59'N, 03°58.81'W<br>Oddi yno ar hyd llinell y Penllaw Astronomaidd Uchaf i leoliad A uchod.<br>Mae map o'r ardal hon i'w weld yn **Atodiad 1.** Gellir gweld map ar wefan Cefas yn:<br>https://www.cefas.co.uk/data-and-publications/shellfish-classification-and-microbiological-monitoring/england-and-wales/classification-zone-maps/ |
| **TRAETH MELYNOG (Gorllewin Afon Menai)**<br>Diffiniwyd fel:<br>Llinell syth o leoliad:<br>A). SH 4370 6308; 53° 08'.51N, 04°20.29'W<br>Oddi yno mewn llinell syth i leoliad:<br>B). SH 4460 6345; 53° 08'.73N, 04°19.50'W<br>Oddi yno ar hyd llinell y Penllanw Astronomaidd Uchaf i leoliad:<br>C). SH 4504 6328; 53° 08'.63N, 04°19.02'W<br>Oddi yno ar hyd llinell y Penllanw Astronomaidd Uchaf i leoliad:<br>D). SH 4633 6210; 53° 08'.91N, 04°17.96'W<br>Oddi yno mewn llinell syth i leoliad:<br>E). SH 4633 6210; 53° 08'.03N, 04°17.91'W<br>Oddi yno ar hyd llinell y Penllanw Astronomaidd Uchaf i leoliad: |

Is-adran Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500, e-bost:
MilfordHavenFisheriesOffice@llyw.cymru

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

F). SH 4553 6150; 53° 07'.69N, 04°18.61'W

Oddi yno mewn lleoliad syth i leoliad:

G). SH 4633 6210; 53° 07'.67N, 04°19.64'W

Oddi yno ar hyd llinell y Penllanw Astronomaidd Uchaf i leoliad **A** uchod yn yr adran hon.

Mae map o'r ardal hon i'w weld yn **Atodiad 2.** Gellir gweld map ar wefan Cefas yn:

https://www.cefas.co.uk/data-and-publications/shellfish-classification-and-microbiological-monitoring/england-and-wales/classification-zone-maps/

**Traeth Coch**

Saif Pysgodfa Cocos Traeth Coch yn nwyrain Ynys Môn, mewn ardal sy'n is na'r linell Penllanw Astronomaidd Uchaf ac sydd wedi'i hamgylchynu gan linell sydd wedi'i thynnu rhwng Pwyntiau A a B a nodir yn y tabl isod.

| | Lledred | Hydred | Cyfeirnod Grid OS |
|---|---|---|---|
| A | 53° 18'.87N | 04°12'.30W | SH 5320 8200 |
| B | 53° 18'.95N | 04°07'.76W | SH 5825 8200 |


Mae map o'r ardal hon i'w weld yn **Atodiad 6.** Gellir gweld map ar wefan Cefas yn:

https://www.cefas.co.uk/data-and-publications/shellfish-classification-and-microbiological-monitoring/england-and-wales/classification-zone-maps/

**Atodiad 1**

# Menai Strait - East
# C. edule

**Scale - 1:80000**




Classification of Bivalve Mollusc Production Areas: Effective from 1 September 2020

The areas delineated above are those classified as bivalve mollusc production areas under Regulation (EU) 2019/627.

Further details on the classified species and the areas may be obtained from the responsible Food Authority. Enquiries regarding the maps should be directed to: Shellfish Microbiology, CEFAS Weymouth Laboratory, Barrack Road, The Nothe, Weymouth, Dorset DT4 8UB.
(Tel: 01305 206600 Fax: 01305 206601)

N.B. Lat/Longs quoted are WGS84.
Unless otherwise stated, non-straight line boundaries between co-ordinates follow the OS 1:25,000 mean high water line.
Separate map available for Mytilus spp. at Menai Strait - East.

Food Authority: Gwynedd County Council


Is-adran Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500, e-bost:
MilfordHavenFisheriesOffice@llyw.cymru

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

## Atodiad 2

# Menai Strait - West
# C. edule

**Scale - 1:70000**




| Classification: Status | Class A | Class B | Class C | Prohibited |
|---|---|---|---|---|
| | LT Class B | Seasonal Class B/C | | |

Classification of Bivalve Mollusc Production Areas: Effective from 1 September 2020

The areas delineated above are those classified as bivalve mollusc production areas under Regulation (EU) 2019/627.


Further details on the classified species and the areas may be obtained from the responsible Food Authority. Enquiries regarding the maps should be directed to: Shellfish Microbiology, CEFAS Weymouth Laboratory, Barrack Road, The Nothe, Weymouth, Dorset DT4 8UB.
(Tel: 01305 206600 Fax: 01305 206601)

N.B. Lat/Longs quoted are WGS84
Unless otherwise stated, non-straight line boundaries between co-ordinates follow the OS 1:25,000 mean high water line.
Separate maps available for Mytilus spp. and C. gigas at the Menai Strait - West

Food Authorities: Ynys Mon - Isle of Anglesey County Council - Northside
Gwynedd County Council - Southside

**Atodiad 3**

Map Mynediad Traeth Lafan




**Atodiad 4**

**Gwelyau morwellt (Zostera noltei) Ardaloedd cyfyngedig i'w hosgoi.**



Is-adran Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500, e-bost:
MilfordHavenFisheriesOffice@llyw.cymru

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

| X (Easting) | Y (Northing) |
|---|---|
| -4.311207 | 53.145636 |
| -4.317488 | 53.144160 |
| -4.322200 | 53.144755 |
| -4.323723 | 53.144375 |
| -4.324277 | 53.144950 |
| -4.325405 | 53.145719 |
| -4.326604 | 53.144918 |
| -4.327063 | 53.144828 |
| -4.329540 | 53.142934 |
| -4.326223 | 53.139910 |
| -4.328382 | 53.138512 |
| -4.330256 | 53.136638 |
| -4.331386 | 53.134050 |
| -4.331785 | 53.130953 |

**Atodiad 5**

**Gwelyau morwellt-ardaloedd cyfyngedig i'w hosgoi.**





Is-adran Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500, e-bost:
MilfordHavenFisheriesOffice@llyw.cymru

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

## Atodiad 6

# Anglesey - Red Wharf Bay
# C. edule

**Scale - 1:81000**




Classification: Status — Class A, Class B, Class C, Prohibited, LT Class B, Seasonal Class B/C

Classification of Bivalve Mollusc Production Areas: Effective from 1 September 2020

The areas delineated above are those classified as bivalve mollusc production areas under Regulation (EU) 2019/627.

Further details on the classified species and the areas may be obtained from the responsible Food Authority. Enquiries regarding the maps should be directed to: Shellfish Microbiology, CEFAS Weymouth Laboratory, Barrack Road, The Nothe, Weymouth, Dorset DT4 8UB.
(Tel: 01305 206600 Fax: 01305 206601)

N.B. Lat/Longs quoted are WGS84
Unless otherwise stated, non-straight line boundaries between co-ordinates follow the OS 1:25,000 mean high water line.

Food Authority: Ynys Mon - Isle of Anglesey County Council

Is-adran Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court, Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 03000 253500, e-bost:
MilfordHavenFisheriesOffice@llyw.cymru

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE